

# Archwilio Patrymau o Newid i'r Hinsawdd – Taflen Weithgaredd Rhan 1

## Gweithgaredd

### Archwiliad

Yn y rhan gyntaf o'r archwiliad rydym yn mynd i ofyn i chi ysgrifennu cwestiynau addas i archwiliad ac i ddefnyddio tystiolaeth er mwyn dod o hyd i ganlyniadau a dadansoddiadau a fydd yn eich helpu i ateb y cwestiynau hynny.

Yn yr ail ran yn y rhifyn nesaf byddwch yn edrych ar systemau byd-eang sy'n rheoli tywydd a hinsawdd a sut mae pobl yn newid y systemau hynny a chreu'r problemau hinsoddol rydym wedi edrych arnynt yn ystod y rhifyn hwn o *Daearyddiaeth yn y Newyddion*.

Byddwn yn defnyddio'r strwythur archwilio normal o hen rifynnau *Daearyddiaeth yn y Newyddion*, ond ni fyddwn yn gwerthuso.

### A. Cyflwyniad

- Yn yr adran hon, byddwch yn esbonio'r hyn rydych yn ei archwilio.
- Byddwch yn **dewis cwestiynau** yr hoffech eu hateb.
- Byddwch yn egluro gwybodaeth gefndir bwysig.

### B. Canlyniadau

- Defnyddiwch fapiau o'r erthyglau.
- Defnyddiwch luniau o'r erthyglau, ymchwil ar-lein a GIS.
- Rhowch ddata mewn i dablau.
- Trowch y data yn ffurf haws i'w ddeall:
  - Defnyddiwch graffiau
  - Symleiddiwch ddata i rifau sydd wedi eu talgrynnu neu gymedr cynrychiolaidd.

### C. Dadansoddiad

- Dangoswch sut mae eich canlyniadau yn ateb eich cwestiynau:
  - Anodwch y graffiau, lluniau, mapiau a'r diagramau.
  - Lluniwch baragraffau.

### Canlyniadau


- Beth ydych chi wedi dod o hyd iddo ar gyfer pob un o'ch cwestiynau? Beth yw'r ateb?

1. Ysgrifennwch y teitl **Cyflwyniad** cyn ateb y cwestiynau canlynol ar ffurf **baragraff** (ac felly nid ar wahân):
  - a. Beth yw aergyrrff?
  - b. Lluniwch fap i ddangos y prif aergyrrff sy'n effeithio




- ii. aer Pegynol Arforol
- iii. aer Trofannol Cyfandirol
- iv. aer Trofannol Arforol
- v. aer Arctig

2. Atebwch y cwestiynau canlynol ar ffurf **baragraff** (ac felly nid ar wahân):
  - a. Beth yw ffrynt?
  - b. Beth yw'r Cerrynt Aer Pegynol?
  - c. Disgrifiwch gerrynt aer.
  - ch. Sut mae'r Cerrynt Aer Pegynol yn effeithio ar stormydd?
    - i. Yn eu helpu nhw ddechrau.
    - ii. Yn eu cario nhw tua'r dwyrain.



3. Atebwch y cwestiynau canlynol ar ffurf **baragraff** (ac felly nid ar wahân):
  - a. Beth sy'n rheoli llwybr y Cerrynt Aer Pegynol?
  - b. Beth sy'n digwydd pan fod y Cerrynt Aer Pegynol uwchben y DU (mae'r haf yma yn enghraifft dda)?
  - c. Sut oedd y tywydd yr haf hwn?
  - ch. Pam ydyn ni wedi cael gymaint o ddiwrnodau oer a glawiog?
4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar ffurf **baragraff** (ac felly nid ar wahân):
  - a. Beth yw'r Osgiladiad Gogledd Iwerydd?
  - b. Beth sy'n rheoli'r O.G.I.?
  - c. Sut allai newid i'r hinsawdd effeithio ar yr O.G.I.?
  - ch. Disgrifiwch y map isod yn dangos patrwm haf 2017 yr O.G.I.



5. Mae'r patrwm yma yn achosi llifogydd haf posib yng ngogledd Ewrop, a sychderau a phoethdonnau yn ne Ewrop. Pa problemau allai hyn eu hachosi i bobl?
  - a. Gogledd Ewrop/y DU.
  - b. De Ewrop.
6. Sut gafodd y patrwm hwn ei ragweld i newid erbyn diwedd y ganrif?
  - a. Faint o farwolaethau i gyd?
  - b. Faint o farwolaethau oherwydd llifogydd?

# Archwilio Patrymau o Newid i'r Hinsawdd – Taflen Weithgaredd Rhan 1

7. Ysgrifennwch y teitl **Ymholiadau** cyn cwblhau'r gweithgareddau hyn.

8. Ceisiwch ysgrifennu 3 neu 4 cwestiwn eich hunan ar sail penawdau adroddiad GACHG ar hinsawdd 2016.

- Roedd nwyon tŷ gwydr yr uchaf erioed.
- Roedd tymheredd wyneb y ddaear y poethaf erioed.
- Roedd tymheredd cyfartaledd y cefnforoedd y poethaf erioed.

ch. Roedd gorchudd iâ cefnfor yr Arctig yr isaf erioed.

d. Newidiadau i'r Cylchred Dŵr – Sychderau a Llifogydd.

dd. Roedd cylchwyntoedd trofannol, ar y cyfan, yn uwch na'r cyfartaledd.

9. Archwiliwch yr ymholiadau hyn:


- Sut mae tymereddau misol uchaf y DU wedi newid rhwng y cyfartaledd 1961-1990 a chyfartaledd 1981-2010?
- Sut mae tymereddau cymedrol misol Cymru wedi newid dros y 100 mlynedd diwethaf?
- Sut mae tymereddau blynyddol Cymru wedi newid dros y 100 mlynedd diwethaf?
- Sut mae tymereddau blynyddol y DU wedi newid dros y 100 mlynedd diwethaf?
- Sut mae tymheredd gaeafol Cymru wedi newid i'r cyfnodau hyn?:
  - 1961-1990
  - 1971-2000
  - 1981-2010

10. Ysgrifennwch y teitl **Canlyniadau** cyn cwblhau'r gweithgareddau hyn:

Defnyddiwch graffiau, mapiau a lluniau addas i'ch helpu chi ateb eich Cwestiynau.

11. Rhaid cynnwys mapiau, tablau a data graff yr ydych yn dod o hyd iddyn nhw fel rhan o'ch ymchwil.

12. Disgrifiwch sut mae tymereddau'r gaeaf wedi newid dros y 50 mlynedd diweddfaf.



13. Lluniwch graff i ddangos sut mae tymereddau uchaf misol wedi newid dros y 50 mlynedd diwethaf.



Tymheredd Uchaf °C												
Blwyddyn	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh
1961-1990	5.7	5.8	8	10.6	14.1	17	18.6	18.4	16	12.7	8.4	6.5
1981-2010	6.4	6.6	8.9	11.4	14.7	17.3	19.4	19.1	16.5	12.8	9.1	6.7

Tymheredd Misol Cymedrol °C												
Blwyddyn	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh
1910	3.9	5.0	5.8	6.5	10.6	13.6	13.6	13.9	12.2	10.1	4.2	6.2
1956	3.8	-0.4	5.8	6.4	10.5	12.1	14.5	12.6	13.4	9.0	6.0	5.6
2014	5.4	5.5	6.8	9.2	11.3	14.1	16.2	14.0	14.1	11.5	7.8	5.2

14. Lluniwch graff i ddangos tymereddau misol cymedrol 1910, 1956 a 2014.

15. Disgrifiwch sut mae tymereddau blynyddol cymedrol Cymru wedi newid dros y 100 mlynedd diwethaf.

16. Disgrifiwch sut mae tymereddau blynyddol cymedrol y DU wedi newid dros y 100 mlynedd diwethaf.



17. Defnyddiwch ffynonellau data eraill i ddangos sut mae'r hinsawdd yn newid yn y DU a Chymru. Triwch ddefnyddio:

- Mapiau
- Tablau
- Graffiau.

18. Ysgrifennwch y teitl **Dadansoddiad** cyn ateb cwestiwn 19.

19. Sut mae hinsawdd y DU a Chymru wedi newid?

- Dros y 50 mlynedd diwethaf
- Dros y 100 mlynedd diwethaf